CYNGOR SIR

DYDD MERCHER, 10 TACHWEDD 2021

YN BRESENNOL: Cynghorydd J.E. Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:-

F. Akhtar	S.M. Allen	L.R. Bowen	K.V. Broom
J.M. Charles	C.A. Campbell	D.M. Cundy	S.A. Curry
C.A. Davies	W.R.A. Davies	T.A.J. Davies	G. Davies
H.L. Davies	I.W. Davies	J.A. Davies	K. Davies
S.L. Davies	J.S. Edmunds	D.C. Evans	H.A.L. Evans
L.D. Evans	R.E. Evans	W.T. Evans	S.J.G. Gilasbey
P. Hughes-Griffiths	A.D. Harries	T.M. Higgins	J.K. Howell
P.M. Hughes	A. James	J.D. James	R. James
D.M. Jenkins	J.P. Jenkins	G.H. John	C. Jones
B.W. Jones	D. Jones	G.R. Jones	T.J. Jones
A. Lenny	M.J.A. Lewis	K. Lloyd	K. Madge
S. Matthews	A.S.J. McPherson	E. Morgan	A.G. Morgan
S. Najmi	D. Nicholas	B.D.J. Phillips	J.S. Phillips
D. Price	J.G. Prosser	B.A.L. Roberts	E.M.J.G. Schiavone
A.D.T. Speake	L.M. Stephens	D. Thomas	E.G. Thomas
G.B. Thomas	G. Thomas	A.Vaughan Owen	D.T. Williams
D.E. Williams			

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-
W. Walters, Prif Weithredwr;
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd;
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio;
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
J. Hawker, Swyddog Cymorth Digidol;
C.J. Warwick, Peiriannydd Cymorth Digidol;
L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol;
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Rhith-Gyfarfod: 10.00 yb - 12.45 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr E. Dole, P. Edwards, A. Fox, C.J. Harris, H.B. Shepardson, B. Thomas a J. Tremlett.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Y Cynghorydd/Swyddog	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
K. Lloyd	8.3 – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Alun Lenny	Yn meddu ar gyfranddaliadau yn Carmarthenshire Energy Ltd.;
C.A. Davies	8.2 - Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Gareth John	Mae llwybr beicio Dyffryn Tywi, a fydd yn elwa o'r Gronfa Codi'r Gwastad, yn mynd drwy fferm y Cynghorydd Davies;
C.A. Davies	8.3 – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Alun Lenny	Ffermwr;
T.A.J. Davies	8.3 – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Alun Lenny	Tirfeddiannwr a Ffermwr;
K. Madge	7.1 – Cofnod 8 o Gofnodion y Cabinet 11 Hydref 2021	Ei ferch yn gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol;
J.A. Davies	8.3 – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Alun Lenny	Tirfeddiannwr;
K. Broom	7.2 – Cofnod 7 o Gofnodion y Cabinet 25 Hydref 2021	Mae'r llwybr troed yn mynd drwy dir y Cynghorydd Broom;
K. Broom	8.3 – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Alun Lenny	Tirfeddiannwr;
M.J.A. Lewis	8.3 – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Alun Lenny	Ffermwr;
J.K. Howell	8.3 – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Alun Lenny	Tirfeddiannwr;
G.B. Thomas	8.3 – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Alun Lenny	Ffermwr;
A. James	8.3 – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Alun Lenny	Ffermwr;
J.M. Charles	8.3 – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Alun Lenny	Tirfeddiannwr;
S.M. Allen	8.3 – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Alun Lenny	Tirfeddiannwr;

W.T. Evans	8.3 – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Alun Lenny	Tirfeddiannwr;
D.E. Williams	8.3 – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Alun Lenny	Perchennog fferm;
C.A. Campbell	8.3 – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Alun Lenny	Tirfeddiannwr;
S.L. Davies	8.3 – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Alun Lenny	Ei mam yn dirfeddiannwr;
J.E. Williams	8.3 – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Alun Lenny	Ffermwr.

3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

- Estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad dwysaf, ar ran yr Aelodau Etholedig a'r Uwch-swyddogion, i'r Cynghorydd Jane Tremlett a'i theulu ynghylch eu colledion diweddar;

- Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Jim Jones yn ôl yn dilyn ei salwch diweddar;

- Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Edward Thomas am ei wahoddiad i de prynhawn yn Llandeilo ar 23 Hydref 2021;

- Dywedodd y Cadeirydd wrth y Cyngor ei fod ef a'i wraig Joyce, ar 30 Hydref 2021, wedi mwynhau perfformiad o 'Joseph and his Amazing Technicolour Dreamcoat' gan Theatr Ieuenctid Porth Tywyn. Diolchodd i'r Theatr Ieuenctid am y gwahoddiad;

- Estynnodd y cadeirydd ei longyfarchiadau i'r Cynghorydd Ann Davies a'i thîm ar eu llwyddiant yn Seremoni Wobrwyo Flynyddol Mudiad Meithrin yn ddiweddar;

- Dywedodd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Ken Lloyd, ei fod wedi cynrychioli'r Cadeirydd yn ddiweddar yn lansiad Apêl Flynyddol y Pabi yn nhref Caerfyrddin a noson elusennol gyda Maer Llanelli;

- Cyhoeddodd y Cynghorydd Ann Davies fod y Cyngor unwaith eto wedi derbyn achrediad gan Ymgyrch y Rhuban Gwyn i gydnabod y gwaith yr oedd wedi'i wneud ac yn bwriadu ei wneud. Byddai'r Cyngor, fel rhan o'i ymrwymiad, yn nodi Diwrnod y Rhuban Gwyn ar 25 Tachwedd 2021 fel yr oedd wedi'i wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac anogodd y Cynghorydd Davies yr holl aelodau i ymrwymo i addewid Ymgyrch y Rhuban Gwyn;

- Diolchodd y Cynghorydd Jeanette Gilasbey i bawb, gan gynnwys y Cyngor, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r gwasanaethau brys, a oedd wedi helpu'r trigolion yn dilyn y llifogydd diweddar yng Nghydweli;

- Llongyfarchodd y Cynghorydd Hazel Evans Nicola Olsson, Swyddog Cynorthwyol Diogelwch Ffyrdd, ar y wobr a dderbyniodd gan Gymdeithas Ceffylau Prydain i gydnabod y gwaith yr oedd wedi'i wneud i ddatblygu arwydd ffordd i ddiogelu ceffylau. Ers hynny, roedd yr arwydd wedi'i gymeradwyo gan Bartneriaeth Diogelwch Ffyrdd Cymru;

- Llongyfarchodd a diolchodd y Cynghorydd Hazel Evans i bawb a fu'n rhan o'r cais llwyddiannus i'r Gronfa Codi'r Gwastad gan Lywodraeth y DU am £16.7 miliwn ar gyfer Llwybr Beicio Dyffryn Tywi, gan gynnwys Jonathan Edwards, AS Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, a Simon Hart, Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Diolchodd y Cynghorydd Evans hefyd i'r holl swyddogion a oedd yn gyfrifol am baratoi a chyflwyno'r cais a thalodd deyrnged i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet am eu gweledigaeth i gefnogi'r prosiect;

- Llongyfarchodd y Cynghorydd Rob James grŵp o Gynghorwyr Sir yn Llanelli, dan arweiniad y Cynghorydd Rob Evans, a oedd wedi camu i'r adwy i werthu pabïau ar ran y Lleng Brydeinig Frenhinol pan nad oedd cyn-filwyr yn gallu gwneud hynny;

- Rhoddodd y Dirprwy Arweinydd, gyda chaniatâd y Cadeirydd, y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa o ran Covid yn Sir Gaerfyrddin. Ddydd Llun cofnododd Sir Gaerfyrddin 483.1 achos i bob 100,000, o'i gymharu â 537.2 i bob 100,000 yn y 7 diwrnod blaenorol – gostyngiad o 54.1 achos i bob 100,000. Y ffigur ar 11 Hydref 2021 oedd 579.5 i bob 100,000 ac, yn ystod y 4 wythnos diwethaf felly, bu gostyngiad o tua 100 achos i bob 100,000. Er bod pethau'n symud i'r cyfeiriad cywir, ystyriwyd bod llawer i'w wneud o hyd, yn enwedig wrth i'r gaeaf nesáu, ac anogwyd pobl i fod yn ofalus. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, anogodd y Dirprwy Arweinydd bawb i gael y ddau frechiad Covid a'r brechiad atgyfnerthu pan ddywedir wrthych am wneud hynny, cael prawf a hunanynysu os byddwch yn datblygu symptomau, cofio bod yr awyr agored yn fwy diogel wrth wneud cynlluniau i gwrdd â phobl eraill, cadw eich pellter pan allwch wneud hynny, golchi eich dwylo a gwisgo gorchudd wyneb. Anogwyd pobl hefyd i fanteisio ar gynnig brechlyn y ffliw gan fod y siawns o fynd yn ddifrifol wael gyda Covid a'r ffliw yn cael ei lleihau'n fawr ar ôl cael eich brechu, yn ogystal â'r risg y byddwch yn lledaenu'r feirws;

- Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at yr Apêl Teganau Nadolig a lansiwyd yn y cyfarfod diwethaf, gan nodi y byddai unrhyw gefnogaeth a rhoddion yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

4. COFNODION - 13EG HYDREF, 2021

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2021 gan eu bod yn gywir.

5. AELODAETH PWYLLGORAU CRAFFU, PWYLLGORAU RHEOLEIDDIO A PHWYLLGORAU ERAILL Y CYNGOR A PHENODI AELODAU I WASANAETHU ARNYNT

Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990, fel y'u diwygiwyd, rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yn manylu ar ganlyniad adolygiad o gyfansoddiad Pwyllgorau Craffu, Pwyllgorau Rheoleiddio a phwyllgorau eraill y Cyngor yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd S. Najmi o'r Grŵp Annibynnol Newydd a dod yn aelod heb gysylltiad pleidiol. Nodwyd, o ganlyniad i'r ymddiswyddiad, y byddai cynrychiolaeth y Grŵp Annibynnol Newydd ar bwyllgorau ddau yn llai ac y byddai cynrychiolaeth aelodau heb gysylltiad pleidiol ddau yn fwy. Nid oedd dyraniad y seddi a ddelir gan Grŵp Plaid Cymru, y Grŵp Annibynnol a'r Grŵp Llafur wedi newid.

Mewn ymateb i'r newidiadau gofynnol, fel y nodir yn nhabl 3 yr adroddiad, roedd y Grŵp Annibynnol Newydd wedi cytuno i roi'r gorau i'w ddwy sedd ar y Pwyllgor Cynllunio a fyddai'n cael eu hailddyrannu i'r aelodau heb gysylltiad pleidiol.

PENDERFYNWYD, o ganlyniad i newidiadau i aelodaeth wleidyddol gyffredinol y Cyngor:

5.1 fabwysiadu'r newidiadau i nifer y seddi a ddelir gan y Grŵp Annibynnol Newydd a'r Aelodau heb Gysylltiad Pleidiol, fel y manylir yn Nhablau 1, 2 a 3 yr adroddiad;

5.2 yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 2 (2) (n), cymeradwyo newidiadau yn aelodaeth y Pwyllgorau yn sgil penderfyniad 5.1 uchod (fel y manylir yn yr adroddiad);

5.3 nodi nad oes dim newidiadau i nifer y seddi a ddelir gan Grŵp Plaid Cymru, y Grŵp Llafur a'r Grŵp Annibynnol ar y Cyngor;

5.4. yn unol â Rhan 6 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, nodi nad yw'r trefniadau presennol ar gyfer dyrannu'r pum sedd ar bwyllgorau craffu yn newid.

6. YSTYRIED ARGYMHELLION Y CABINET O RAN A MATERION CYNLYNOL:-

6.1. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2019/21 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL MABWYSIEDIG SIR GAERFYRDDIN

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Cabinet, yn ystod ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2021 (cofnod 12), wedi ystyried Adroddiad Monitro Blynyddol 2019/21 ynghylch Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Sir Gaerfyrddin, a luniwyd yn unol â Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol 2005. Er barnu bod cynnydd wedi'i wneud o ran gweithredu llawer o bolisïau ac amcanion y Cynllun a fabwysiadwyd, roedd elfennau a rhannau ohono nad oeddent yn cael eu cyflawni yn ôl y bwriad. Roedd pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig wedi ychwanegu at y broblem. Yn hyn o beth, roedd yn anochel bod rhai o ganfyddiadau'r adroddiad yn adleisio'r heriau a brofwyd gan rai sectorau a chymdeithas.

Nodwyd, yn unol â dyletswydd statudol y Cyngor, fod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 31 Hydref 2021. Byddai ymgynghoriad anffurfiol yn cyd-fynd â hyn er mwyn rhoi cyfle i bartïon â diddordeb roi sylwadau ar y materion allweddol a

godwyd. Er nad oedd yn ofyniad statudol, roedd yr ymgynghoriad yn gyfle pwysig i gyflwyno sylwadau, a lle bo'n briodol, i'r sylwadau hynny gyfrannu at gynnwys Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol. Byddai cynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol presennol, ynghyd â chynnwys y tair dogfen flaenorol, yn cael ei ddefnyddio wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2018 – 2033 a'i sylfaen dystiolaeth gysylltiedig.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:

"y dylid cymeradwyo'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin, ac awdurdodi swyddogion i wneud newidiadau teipograffyddol neu ffeithiol yn ôl yr angen i wella ei eglurder a'i gywirdeb."

7. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR:-

7.1. 11EG HYDREF 2021

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd K. Madge wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2021.

7.2. 25AIN HYDREF 2021

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd K. Broom wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2021.

8. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-

8.1. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD ROB JAMES

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Rob James:-

"Bod y Cyngor:

- Yn nodi'r penderfyniad a wnaed gan y weinyddiaeth Plaid ac Annibynnol yn 2016 i "beidio ag [ymateb] i geisiadau ynghylch clymog Japan a phlanhigion anfrodorol ymledol eraill ar eiddo preifat na chymryd unrhyw gamau ffurfiol mewn perthynas â'r mater hwn".
- Yn cydnabod bod Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 wedi rhoi pwerau i gynghorau roi 'Hysbysiadau Gwarchod Cymuned' i fynd i'r afael â chlymog ar dir preifat sy'n cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd yr ardal ac sy'n barhaus ac yn afresymol.
- Yn cydnabod bod cynghorau rhagweithiol, fel Bryste, wedi defnyddio'r pwerau hyn i gynorthwyo trigolion y mae methiant tirfeddianwyr i reoli clymog wedi cael effaith negyddol ar eu bywydau.
- Yn galw ar y weinyddiaeth Plaid ac Annibynnol hon i wrthdroi ei phenderfyniad a dechrau defnyddio Hysbysiadau Gwarchod Cymuned i

fynd i'r afael â mater clymog ar dir preifat sy'n cael effaith andwyol ar drigolion mewn llawer o gymunedau yn Sir Gaerfyrddin".

Eiliwyd y cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynigydd ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Cynigiwyd y gwelliant canlynol i'r Cynnig gan y Cynghorydd D. Thomas a chafodd ei eilio:

"Bod y Cyngor:
- Yn nodi'r penderfyniad a wnaed gan y weinyddiaeth Plaid ac Annibynnol yn 2016 i "beidio ag [ymateb] i geisiadau ynghylch clymog Japan a phlanhigion anfrodorol ymledol eraill ar eiddo preifat na chymryd unrhyw gamau ffurfiol mewn perthynas â'r mater hwn, a oedd, ac sy'n dal i fod, yn unol â dull gweithredu cynghorau eraill Cymru.
- Yn cydnabod bod Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 wedi rhoi pwerau i gynghorau roi 'Hysbysiadau Gwarchod Cymuned' i fynd i'r afael â chlymog ar dir preifat sy'n cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd yr ardal ac sy'n barhaus ac yn afresymol.
- Yn nodi bod Bryste, y tu allan i Gymru, wedi defnyddio'r pwerau hyn i gynorthwyo trigolion y mae methiant tirfeddianwyr i reoli clymog wedi cael effaith negyddol ar eu bywydau.
- Yn galw ar y weinyddiaeth Plaid ac Annibynnol hon i wrthdroi ei phenderfyniad a dechrau defnyddio Hysbysiadau Gwarchod Cymuned i fynd i'r afael â mater clymog ar dir preifat sy'n cael effaith andwyol ar drigolion mewn llawer o gymunedau yn Sir Gaerfyrddin. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i annog cynghorau eraill i ystyried cymryd camau tebyg."

Rhoddwyd cyfle i gynigydd ac eilydd y Gwelliant siarad o'i blaid a rhoesant amlinelliad o'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Gwelliant.

Gwnaed nifer o ddatganiadau a gefnogai'r Cynnig a'r Gwelliant.

Dywedwyd wrth y Cyngor, pe bai'r Gwelliant yn cael ei dderbyn, mai dyma fyddai'r Cynnig terfynol a fyddai, pe bai'n cael ei gefnogi, yn cael ei gyfeirio at y Cabinet.

Yn dilyn y bleidlais

PENDERFYNWYD cefnogi'r Cynnig, fel y'i diwygiwyd, a'i gyfeirio at y Cabinet.

8.2. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD GARETH JOHN

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd C.A. Davies wedi datgan buddiant personol yn yr eitem hon yn gynharach ac nid oedd yn bresennol tra oedd yr eitem yn cael ei thrafod.]

Ystyriodd y Cyngor y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Gareth John:-

“Dymuna'r Cyngor gofnodi ei werthfawrogiad o'r weledigaeth a ddangoswyd gan ein Cabinet a diolch yn ddiffuant am y gwaith aruthrol a wnaed gan ein swyddogion proffesiynol sy'n gweithredu o fewn amserlen mor gaeth mewn amgylchiadau anodd, gan weithio'n hanfodol gyda phartneriaid eraill, i lwyddo i sicrhau cyllid gan Gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU ar gyfer prosiectau mawr yn Sir Gaerfyrddin”.

Eiliwyd y cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynigydd ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn mynegi cefnogaeth i'r Cynnig.

PENDERFYNODD y Cyngor gefnogi'r Cynnig.

8.3. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD ALUN LENNY

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr S.M Allen, C. Campbell, A. James, K. Lloyd, A.D.T. Speake a D.E. Williams wedi datgan buddiant personol yn yr eitem hon yn gynharach ac nid oeddent yn bresennol tra oedd yr eitem yn cael ei thrafod. Roedd y Cynghorwyr K.V. Broom, T.A.J. Davies, J.M. Charles, C.A. Davies, J.A. Davies, W.T. Evans, G.B. Thomas a J.E. Williams hefyd wedi datgan buddiant ond gwnaethant aros yn y cyfarfod].

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Alun Lenny:-

“COEDWIGO CYFRIFOL – DULL CYNALIADWY NAD YW'N ECSBLOETIOL

Mae'r Cyngor yn mynegi ei bryder ynghylch prynu ffermydd teuluol yn Sir Gaerfyrddin a'r rhanbarth ehangach gan gwmnïau rhyngwladol i blannu coed er mwyn creu 'credydau carbon' sy'n cael eu gwerthu i gwmnïau sy'n llygru i gyrraedd eu targedau gwrthbwyso carbon.

Er ei fod yn derbyn bod plannu coed ar raddfa fawr yn cael ei gydnabod fel un ffordd o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, mae'r Cyngor yn gresynu bod gwrthbwyso carbon yn caniatáu i'r cwmnïau sy'n gollwng llawer o garbon barhau â'u hymddygiad anghynaliadwy.

At hynny, mae'r Cyngor yn nodi bod cwmnïau rhyngwladol eisoes wedi hawlio dros £1.3m gan Lywodraeth Cymru drwy gronfa Glastir - Creu Coetir, sy'n golygu bod trethdalwyr Cymru yn rhoi cymhorthdal i raglenni gwrthbwyso carbon cwmnïau o'r tu allan i Gymru.

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r egwyddor o goedwigaeth gyfrifol ond mae'n credu bod yn rhaid gwneud hyn mewn ymgynghoriad â chymunedau lleol, ac ni ddylai gael effaith andwyol ar gyflogaeth leol, diwylliant a hyfywedd cymunedol.

Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

- Sicrhau mai dim ond ffermwyr presennol yng Nghymru all hawlio cyllid drwy gynllun Glastir - Creu Coetir
- Cyflwyno deddfwriaeth datblygu cynllunio i alluogi awdurdodau cynllunio lleol fel Sir Gaerfyrddin i reoli prosiectau coedwigo, a phennu terfyn ar gyfran y tir ar unrhyw fferm y gellir ei defnyddio ar gyfer coedwigo heb fod angen caniatâd cynllunio
- Cyflawni ei chynlluniau coedwigo drwy ddatblygu cwmni hyd braich sy'n eiddo cyhoeddus i reoli coedwigaeth Cymru a helpu i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau allyriadau carbon

Mae'r Cyngor yn cydnabod barn ymgyrchwyr amgylcheddol nad ateb syml yw plannu coed i osgoi newid yn yr hinsawdd ac mae'n cytuno mai dim ond cwtogiad sydyn ar losgi tanwydd ffosil all atal y cynnydd parhaus a brawychus mewn tymheredd byd-eang".

Eiliwyd y cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynigydd ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn mynegi cefnogaeth i'r Cynnig.

PENDERFYNWYD y Cyngor gefnogi'r Cynnig.

9. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

10. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan yr aelodau.

11. CYMARADWYO Y NEWIDIADAU CANLYNOL I AELODAETH PWYLLGORAU

11.1. MAE'R GRWP ANNIBYNNOL NEWYDD WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD SHAREN DAVIES I LENWI'R SEDD A OEDD YN PERTHYN YN GYNT I'R CYNGHORYDD SHAHANA NAJMI AR Y PWYLLGOR CRAFFU - ADDYSG A PHLANT

Yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 2(2)(n), roedd y Grŵp Annibynnol Newydd wedi enwebu'r Cynghorydd S.L. Davies i gymryd lle'r Cynghorydd S. Najmi fel ei gynrychiolydd ar y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant a:

PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo enwebiad y Cynghorydd S.L. Davies i gymryd lle'r Cynghorydd S. Najmi fel cynrychiolydd y Grŵp Annibynnol Newydd ar y Pwyllgor Craffu – Addysg a Phlant.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**